Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,
Abertawe, SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk

*Gofynwch am:*
*Ffôn:*
*E-Bost:*
*Ein Cyf:*
*Eich Cyf:*
*Dyddiad:* 14 Ebrill 2021

Annwyl Rieni/Warcheidiaid

Wrth i ni ddechrau tymor yr haf mae'n braf iawn gweld ein holl blant a phobl ifanc yn ôl yn yr ysgol gyda'r gobaith bod y sefyllfa sy'n gwella yn parhau.

Nid wyf yn ymddiheuro am ddiolch i'n gweithlu ysgol rhyfeddol unwaith eto a gobeithio, gyda chefnogaeth cymuned ein hysgol gyfan, y gall ein plant a'n pobl ifanc gael tymor llawn yn ôl yn yr ysgol gyda'u ffrindiau, ond i'r sefyllfa well barhau, rydym ni angen eich cefnogaeth.

**Profion Llif Unffordd Gwirfoddol i flynyddoedd 7 ac uwch**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd y cynnig o brofion llif unffordd asymptomatig rheolaidd yn cael ei ymestyn i bob disgybl ysgol uwchradd. Bydd y citiau profi cartref llif unffordd yn caniatáu i fyfyrwyr brofi eu hunain ddwywaith yr wythnos. Bydd dysgwyr yn gallu casglu eu citiau prawf o'u hysgol / lleoliad a byddant yn profi eu hunain gartref. Mae'r profion hyn yn parhau i fod yn rhan o ystod o fesurau sydd ar waith i helpu i reoli trosglwyddiad y firws. Mae'r cyfrifoldeb am reoli sefyll ac adrodd am y profion gyda rhieni / gofalwyr a phobl ifanc. Os dewiswch chi gynnal y profion yna mae'n bwysig iawn bod unrhyw ganlyniadau cadarnhaol yn cael eu hadrodd a bod gofynion hunan-ynysu yn cael eu bodloni. Gobeithiaf hefyd y byddant yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ychwanegol y bydd unrhyw achosion cadarnhaol yn cael eu nodi'n gynnar.

**Masgiau**

Bydd gofyn i ddisgyblion yn ein hysgolion uwchradd wisgo mwgwd yn yr ysgol os na allant gadw'r pellter gofynnol oddi wrth eraill. Mae pob disgybl ysgol uwchradd wedi cael tri masg o ansawdd da y gellir eu golchi hyd at 50 gwaith.

**Negeseuon allweddol ar gyfer cadw'n ddiogel**

Mae'n hanfodol bod ein plant a'n rhieni yn parhau i gadw at yr holl reolau o dan ein haen o gyfyngiadau er mwyn galluogi llacio rheolau ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cadw'ch pellter wrth gatiau'r ysgol wrth ollwng a chasglu'ch plant. Peidiwch â chasglu mewn grwpiau wrth gatiau'r ysgol er y demtasiwn i stopio am sgwrs.
- Sicrhau nad yw plant yn cymysgu y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys cysgu dros nos neu bartïon.

- Peidio ag anfon eich plant i'r ysgol os ydyn nhw'n teimlo'n sâl hyd yn oed os nad oes ganddyn nhw'r prif symptomau coronafirws.

Mae ysgolion mor ddiogel ag y gallant fod felly parhewch i chwarae eich rhan i atal y firws rhag lledaenu - mae'r ffigurau'n parhau i wella ond nid yw wedi diflannu.

Yn gywir



Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg

Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council